OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 1132

# Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014

## RHAN 5

## CYMWYSIADAU A CHYFNOD SWYDD

**Y weithdrefn ar gyfer diswyddo llywodraethwyr gan y corff llywodraethu**

**41.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â diswyddo llywodraethwr yn unol â rheoliad 39 neu 40.

(2) Ni fydd penderfyniad a gaiff ei basio mewn cyfarfod o'r corff llywodraethu i ddiswyddo llywodraethwr yn cael effaith oni bai—

(a) bod y llywodraethwr neu'r llywodraethwyr sy'n cynnig diswyddo'r person hwnnw, cyn i'r corff llywodraethu benderfynu diswyddo'r llywodraethwr, yn nodi yn y cyfarfod hwnnw eu rhesymau dros wneud hynny ac y rhoddir cyfle i'r llywodraethwr y cynigir ei ddiswyddo wneud datganiad i ymateb; a

(b) y pennir mater diswyddo'r llywodraethwr fel eitem o fusnes ar agenda'r cyfarfod.

(3) Ar ôl pasio penderfyniad i ddiswyddo llywodraethwr rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu'r person a ddiswyddir, mewn ysgrifen, o'r rhesymau dros y diswyddo.